# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| Awdurdod Lleol | Mudiad | Crynodeb o'r hyn y defnyddir y grant ar ei gyfer: |
|---|---|---|
| Abertawe | Cwmtwrch RFC | Bydd Cwmtwrch RFC yn Abertawe'n gwella'u both cymunedol, gan ei wneud yn fwy cynaliadwy a galluogi defnydd helaethach gan bobl leol. Bydd £10,000 yn ariannu system dŵr poeth gwres solar. |
| Abertawe | Chinese In Wales Association | Bydd Chinese In Wales Association yn Abertawe'n gweithio gyda rhieni a theuluoedd plant sydd ag awtistiaeth gan ddarparu eiriolaeth a chefnogaeth gyfieithu. Bydd y prosiect hwn hefyd yn codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth a chyflyrau cysylltiedig yn y gymuned Tsieineaidd. Bydd £10,000 yn ariannu arbenigwr awtistiaeth amlieithog a chostau cludiant. |
| Abertawe | Families & Friends of Prisoners Group | Bydd Families & Friends of Prisoners Group yn Abertawe'n sefydlu canolfan cwrdd a chyfarch lle gall perthnasau agos carcharorion geisio cyngor am y systemau addysg, iechyd, lles a thai. Bydd £6,000 yn ariannu cydlynydd gwirfoddolwyr a threuliau gwirfoddolwyr. |
| Abertawe | Gweilch yn y Gymuned | £98,900. Bydd y Gweilch yn y Gymuned yn cyflogi staff a gwirfoddolwyr i gyflwyno eu prosiect TACKLE i ysgolion amrywiol ar draws Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr. Anelir y prosiect at greu buddion ar gyfer pobl ifainc 12 - 16 oed y mae ysgolion wedi adnabod eu bod yn NEET neu mewn perygl o fod yn NEET. Bydd pob un yn cymryd rhan mewn rhaglen 2 flynedd a fydd yn defnyddio rygbi fel offeryn gwella hyder, sgiliau rhyngbersonol, hunan-barch, sgiliau bywyd a chyfleoedd addysg/cyflogaeth. |
| Blaenau Gwent | Mens' Den | Bydd Mens' Den ym Mlaenau Gwent yn creu rhwydwaith cefnogi cymheiriaid ac yn cynnig gweithgareddau wythnosol, prosiect rhandir a digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer dynion hŷn sy'n byw yn eu cymuned leol. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | £5,412 yn ariannu costau cysylltiedig, treuliau gwirfoddolwyr ac yswiriant. |
| Bro Morgannwg | Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg | £99,821 Bydd y mudiad yn cyflwyno prosiect gwirfoddoli iechyd meddwl ar draws rhan orllewinol Bro Morgannwg. Gyda ffocws ar gefnogi cymheiriaid a rhyngweithio pwrpasol bydd y prosiect yn cyflwyno pobl i wirfoddoli ac yn darparu'r gefnogaeth y mae ei hangen arnynt i lwyddo a gwella eu hiechyd corfforol a meddyliol. |
| Caerdydd | Cardiff Bangladeshi Society | Bydd Cardiff Bangladeshi Society yn darparu clwb gwaith cartref ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n wynebu rhwystrau lluosog i gynhwysiad academaidd. Bydd £10,000 yn ariannu tiwtor, gweithgareddau chwaraeon a hurio ystafell. |
| Caerdydd | Cardiff Pottery Workshops Foundation CIC | Bydd Cardiff Pottery Workshops Foundation CIC yn cynnig dosbarthiadau crochenwaith therapiwtig ar gyfer pobl sy'n profi salwch meddwl, a fydd yn eu helpu dysgu sgiliau newydd, gwella hunan-barch a chymdeithasu ag eraill sy'n profi problemau tebyg. Bydd £10,000 yn ariannu costau gweithdy, clai a thanio, a hysbysebu. |
| Caerdydd | Cardiff Transition | Bydd Cardiff Transition yn creu rhwydwaith o fudiadau ac unigolion sydd â diddordeb mewn cynaladwyedd a gweithredu cymunedol ac yn eu helpu rhannu syniadau a chyfleoedd. Bydd £10,000 yn ariannu staff, digwyddiadau a deunyddiau, cyfarpar TG, yswiriant a marchnata. |
| Caerdydd | Community Care And Wellbeing Service (CCAWS) | Bydd Community Care And Wellbeing Service (CCAWS) yng Nghaerdydd yn darparu sesiynau cwnsela a chymorth arbenigol ar gyfer 20 o bobl o gymunedau BAME sydd â chyflyrau iechyd meddwl. Bydd £6,170 yn ariannu sesiynau cwnsela, costau goruchwylio, costau datblygu, hyfforddiant datblygu personol parhaus, cefnogaeth weinyddol, taflenni, adnoddau cleientiaid a digwyddiad codi ymwybyddiaeth. |
| Caerdydd | Creative Village Cardiff CIC | Bydd Creative Village Cardiff CIC yn datblygu rhwydwaith cefnogi ar gyfer entrepreneuriaid ifainc a pherchnogion busnesau bach, a gofod cydweithio a leolir |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| | | yng nghanol Caerdydd. Bydd £9,332 yn ariannu gwaith adnewyddu, dodrefn, ffitiadau a gosodiadau, cyfarpar a marchnata. |
| Caerdydd | Fresh Ideals CIC | Bydd Fresh Ideals CIC yng Nghaerdydd yn peilota sesiynau therapi amgen fel ymyrraeth i isafu ac ymdrin â salwch meddwl pobl. Bydd £9,688 yn ariannu costau hyfforddi, costau gweithiwr sesiynol, treuliau gwirfoddolwyr, a gofal plant. |
| Caerdydd | Llamau Limited | Bydd Llamau Limited yng Nghaerdydd yn prynu cerbyd cyffredinol i helpu sicrhau diogelwch menywod a theuluoedd sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn Ne Cymru. Bydd £10,000 yn prynu cerbyd 7-sedd. |
| Caerdydd | No Name Amateur Dramatics Association | Bydd No Name Amateur Dramatics Association yng Nghaerdydd yn defnyddio'r grant i roi cyfle i bobl ddigartref fynychu gweithdai dramatig amatur i helpu adeiladu hyder a chreu cyfeillgarwch. Bydd £8,100 yn ariannu nwyddau swyddfa, storfeydd, technoleg, colur, gwisgoedd, microffonau a goleuadau. |
| Caerdydd (wedi'i leoli yn Abertawe) | Opera Cenedlaethol Cymru | Bydd Opera Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno prosiect canu rhwng y cenedlaethau yn Abertawe gyda phobl hŷn sy'n profi dementia a phlant o ysgolion lleol. Bydd £8,500 yn ariannu arweinydd côr, pianydd, costau awdur a chyfansoddwr, a gweithdy ysgol. |
| Caerdydd | Sikh Council of Wales | Bydd Sikh Council of Wales yn trefnu ymweliadau a gweithdai mewn mannau addoli arwyddocaol i hyrwyddo goddefgarwch, parch a dealltwriaeth o bob crefydd. Bydd £10,000 yn ariannu lleoliad, staff a gwirfoddolwyr , cludiant a theithio, cyfarpar TG, cyfleustodau, digwyddiad lansio. |
| Caerdydd | South Riverside Community Development Centre Ltd | Bydd South Riverside Community Development Centre yng Nghaerdydd yn sefydlu grŵp cymdeithasol ac addysgol ar gyfer menywod BAME sydd â phlant ifainc. Bydd £2,860 yn ariannu gwasanaethau |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| | | crèche, gwres a golau a chostau gweithgareddau. |
| Caerdydd | Stafell Fyw Caerdydd / Living Room Cardiff | Bydd Stafell Fyw Caerdydd / Living Room Cardiff yn sefydlu prosiect ymadfer dros y ffôn ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n profi anawsterau gyda chaethineb, gan ddarparu cefnogaeth gan gymheiriaid ac yn helpu cleientiaid i ymdrin â phroblemau cyn iddynt ddioddef ailwaelu llawn. Bydd £10,000 yn ariannu gweithiwr ymadfer dros y ffôn, cywain a gwerthuso data, rheoli, nwy, trydan a dŵr. |
| Caerdydd | Steps4 Change Ltd | Bydd Steps4 Change Ltd yng Nghaerdydd yn darparu cyngor a mentora ar yrfaoedd i bobl ifanc dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig o deuluoedd incwm isel. Bydd £10,000 yn ariannu gweinyddu a chyhoeddusrwydd, treuliau staff a gwirfoddolwyr, hurio ystafell a chostau gweithgareddau, teithio, lluniaeth ac yswiriant. |
| Caerdydd | Vision 21 (Cyfle Cymru) | Bydd Vision 21 (Cyfle Cymru) yng Nghaerdydd yn darparu clybiau gwyliau ysgol ar gyfer pobl ifainc 14 -18 oed sydd ag anableddau dysgu. Bydd £9,858 yn ariannu costau cydlynydd a staff cefnogi, hurio ystafell, tiwtoriaid llawrydd, treuliau gwirfoddolwyr, deunyddiau celf a chyfieithu. |
| Caerdydd | Women Connect First | Bydd Women Connect First yng Nghaerdydd yn cefnogi menywod 50+ oed o gymunedau BAME i ddysgu sgiliau newydd a goresgyn rhwystrau cymdeithasol-ddiwylliannol sy'n achosi unigedd ac unigrwydd. Bydd £10,000 yn ariannu sgiliau bywyd sylfaenol a dosbarthiadau Saesneg, cwrs cynhwysiad digidol, teithiau, treuliau gwirfoddolwyr a chostau gweinyddu swyddfa. |
| Caerdydd | Y Cyngor Ieuenctid Prydeinig | Bydd y Cyngor Ieuenctid Prydeinig yn dod â chynrychiolwyr ieuenctid o bedair cenedl y Deyrnas Unedig ynghyd i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd, adnabod materion sy'n effeithio ar bobl ifainc ac adeiladu perthnasoedd rhwng aelodau'r |

| | | |
|---|---|---|
| | | cyngor ieuenctid ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd y prosiect hwn yn galluogi hyd at 70 o bobl ifainc o Gymru i gymryd rhan yn y rhaglen. Bydd £10,000 yn ariannu cyflwyno'r digwyddiad, teithio, costau staffio a llety. |
| Casnewydd | Cyswllt Cymunedol Dyffryn | Bydd Cyswllt Cymunedol Dyffryn yng Nghasnewydd yn defnyddio'r grant i ehangu gwaith eu caffi cymunedol trwy greu cyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli ac annog pobl i rwydweithio a ffurfio perthnasoedd. Bydd £9,832 yn ariannu staff a gwirfoddolwyr, cefnogaeth ardystio, costau marchnata a lluniaeth ar gyfer Cinio Mawr bob mis. |
| Casnewydd | Gofal mewn Galar Cruse Gwent | Bydd Gofal mewn Galar Cruse Gwent yn cynorthwyo pobl mewn profedigaeth trwy hyfforddi cwnsleriaid gwirfoddol i gynnig cefnogaeth un i un, dros y ffôn a grŵp ar draws pump ardal awdurdod lleol. Bydd £9,460 yn ariannu ffioedd a deunyddiau hyfforddwr, lleoliad, costau'r grŵp cefnogi, cyhoeddusrwydd, gwirfoddolwyr a TG. |
| Castell-nedd Port Talbot | Tawe Guild of Weavers, Spinners and Dyers | Bydd Tawe Guild of Weavers, Spinners and Dyers yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe'n defnyddio'r grant i ddod â chymuned y cwm ynghyd ar gyfer gweithdai crefft. Bydd £8,760 yn ariannu tiwtoriaid gweithdy, hurio lleoliad, adnoddau addysgol, cyfarpar cyfrifiadurol a thecstilau, gwyddiau i ddechreuwyr a chyhoeddusrwydd. |
| Castell-nedd Port Talbot | Ysgol Gynradd y Rhos | Bydd Ysgol Gynradd y Rhos yng Nghastell-nedd Port Talbot yn gosod cyfarpar chwarae mynediad agored i wella iechyd a lles. Byddant hefyd yn sefydlu gardd y bydd disgyblion yr ysgol a phobl y gymuned leol yn ei chynnal a'i chadw gyda'i gilydd.Bydd £8,500 yn ariannu marcio'r maes chwarae, paent rheiliau, ffens, cyfarpar chwarae, a phlanhigion. |
| Ceredigion | Ffrindiau Ffostrasol | Bydd Ffrindiau Ffostrasol yng Ngheredigion yn defnyddio'r grant i gynnal gŵyl yn eu neuadd bentref, gan ddod â dwy genhedlaeth yn agosach at ei gilydd trwy ganu ac actio. Bydd £4,315 yn ariannu artist, hurio cyfarpar, lleoliad a gwisgoedd, marchnata a chludiant. |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion | Neuadd Pentref Llanfair Clydogau | Bydd Neuadd Pentref Llanfair Clydogau yng Ngheredigion yn adnewyddu eu hadeilad cymunedol, er mwyn i grwpiau o bob rhan o'u cymuned wledig ei defnyddio. Bydd £9,949 yn ariannu gwelliannau i'r maes parcio, trwsio'r llawr, drws blaen newydd, gwaith trydanol, a boeler newydd. |
| Conwy | Myaware North Wales | Bydd Myaware North Wales yn Y Rhyl yn cefnogi pobl sy'n byw gyda'r cyflwr cyhyrau myasthenia, a'u teuluoedd. Bydd £9,975 yn ariannu cyrsiau cwnsela, cyngor ar fudd-daliadau, grwpiau cefnogi allgymorth, cludiant, pecynnau clinigol, a digwyddiadau. |
| Powys | Cylch Meithrin Corris | Bydd Cylch Meithrin Corris ym Machynlleth yn cynnal prosiect rhwng y cenedlaethau i adeiladu perthnasoedd ar draws grwpiau oedran, rhannu hanes lleol, a chreu cysylltiadau newydd rhwng trigolion y pentref. Bydd y grant hwn o £5,450 yn ariannu adnoddau gweithdy a digwyddiad, argraffu, hurio lleoliad, costau tiwtor gweithdy, costau rheoli prosiect a gwerthuso, marchnata, cyfieithu a ffotograffydd. |
| Powys | Friends of Penmaes | Bydd Friends of Penmaes yn Aberhonddu'n cynnwys plant sydd ag anghenion dysgu cymhleth mewn gweithgareddau dawns, ffitrwydd ac ymarfer corff allgyrsiol. Bydd £8,695 yn ariannu cyfarpar corfforol arbenigol, cit cerdd a symudiad a chostau ac adnoddau i'r sesiynau. |
| Powys | Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru | Bydd Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru ym Mhowys yn creu podlediad dwyieithog a fydd yn galluogi aelodau i ddysgu sgiliau digidol newydd ac ar yr un pryd cryfhau cysylltiad y grŵp â'r gymuned ehangach. Bydd £10,000 yn ariannu cyfarpar, marchnata, costau hyfforddi a chefnogaeth staff. |
| Powys | Mid and North Wales Training Group Ltd | Bydd Mid and North Wales Training Group Ltd ym Mhowys yn gwneud gwelliannau i'w hadeilad er mwyn iddynt ddiwallu anghenion eu cymuned wledig yn well. Bydd £9,696 yn |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| | | ariannu costau gosod larwm tân a ffenestri a drysau gwydr dwbl. |
| Rhondda Cynon Taf | Ysgol Gynradd Llwydcoed | Bydd Ysgol Gynradd Llwydcoed yn Aberdâr yn adeiladu estyniad tŷ gwydr ar eu neuadd, gan alluogi defnydd pellach gan y gymuned leol. Bydd £10,000 yn ariannu tŷ gwydr pob tywydd. |
| Sir Benfro | Yr Hen Ysgol Dinas | Bydd Yr Hen Ysgol Dinas yn Sir Benfro'n adnewyddu eu hadeilad, gan alluogi canolfan galw heibio a chlwb garddio er lles. Bydd £8,817 yn ariannu uwchraddio cyfarpar cegin a gardd, llestri a dodrefn. |
| Sir Ddinbych | Ysgol Bryn Collen Llangollen | Bydd Ysgol Bryn Collen Llangollen yn cyflwyno prosiect cymunedol digidol i ddyfnhau diddordeb a gwerthfawrogiad plant o'u treftadaeth, amgylchedd a chymuned leol, ac ar yr un pryd adeiladu a chynnal cysylltiadau â'r gymuned leol. Bydd £8,480 yn ariannu cyfarpar TG a ffilmio, artist proffesiynol, cludiant ac arlwyo ar gyfer digwyddiad mawr. |
| Sir Gâr | Capel Hendre O.A.P. Club | Bydd Capel Hendre O.A.P. Club yn Sir Gâr yn defnyddio'r grant i brynu cyfarpar i gynnal dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer y gymuned leol, ac offer a fydd yn galluogi nhw i oresgyn y problemau y mae eu haelodau'n eu hwynebu. Bydd £4,400 yn ariannu cadeiriau, cludiant, cyfarpar swyddfa, ffioedd siaradwr gwadd a matiau. |
| Sir Gâr | Clwb Golff Glynhir | Bydd Clwb Golff Glynhir yn Rhydaman yn gwella lles corfforol a meddyliol unigolion trwy greu lle i'r gymuned gyfan ei ddefnyddio. Bydd £10,000 yn ariannu byrddau a chadeiriau, system cyflyru aer, bleindiau a ffilm rheoli'r haul. |
| Sir Gâr | Cyfeillion Rhyd-y-gors | Bydd Cyfeillion Rhyd-y-gors yn Sir Gâr yn defnyddio'r grant i ddarparu sesiynau mentora 1:1 ar gyfer pobl ifainc sydd wedi gadael gofal, a fydd yn cynnig cefnogaeth, lleihau pryder ac yn helpu adeiladu eu hyder. Bydd £9,800 yn ariannu costau gweithiwr sesiynol, llechi digidol, yswiriant, costau cludiant a hurio lleoliad. |

ARIENNIR GAN Y LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL LOTTERY FUNDED

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| Sir Gâr | Chooselife Cymru | £99,001. Bydd y prosiect yn cefnogi'r rhai sy'n dioddef o gamddefnyddio sylweddau, cyn-droseddwyr, pobl ddigartref a'r rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod i gyrchu Credyd Cynhwysol, gan ymdrin â rhwystrau fel diffyg dealltwriaeth sylfaenol, sgiliau llythrennedd a rhifedd, cyfathrebu a TG. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn elwa o gyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i wella hyder a sgiliau, gan arwain at deimladau gostyngol o unigedd, tlodi a digartrefedd a gwelliant yn eu hiechyd a lles seicolegol. |
| Sir Gâr | Womens Only Group | Bydd Womens Only Group yn Llanelli'n darparu gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol ar gyfer menywod o gefndiroedd BAME. Bydd £8,500 yn ariannu costau gweithdai, costau sesiynau gweithgarwch corfforol, clwb brecwast, tair taith a digwyddiad byw'n iach. |
| Sir y Fflint | Same But Different CIC | Bydd Same But Different CIC yn Sir y Fflint yn creu arddangosfa unigryw ac arloesol i amlygu teithiau rhyfeddol teuluoedd wrth i blentyn gael ei ddiagnosio gyda chlefyd marwol. Bydd £9,800 yn ariannu ffotograffiaeth a chostau prosesu, costau fideo a chynhyrchu, llyfrynnau, argraffu a chostau dylunio. |
| Sir y Fflint | 1125 CIC | £97,530 Bydd y prosiect yn darparu pobl ifainc ddifreintiedig a bregus 11-25 oed yn Sir y Fflint a Wrecsam gyda rhaglen wythnosol o weithgareddau ennyn diddordeb a fydd yn galluogi nhw i ddatblygu eu sgiliau i helpu codi hunanhyder, gwella dyheadau, cynyddu sgiliau cymdeithasol a chynnig cyfle i ddefnyddio eu profiadau bywyd i helpu eraill trwy fentora. |
| Wrecsam | Book at Bedtime | Bydd Book at Bedtime yn Wrecsam yn defnyddio'r grant i ddarparu llyfrau a theganau therapiwtig ar gyfer plant sy'n byw mewn canolfannau lloches cam-drin domestig ledled Cymru. Bydd y grant hwn o £1,922 yn ariannu 32 set o lyfrau a theganau |

# Grantiau a ariennir gan y Loteri Genedlaethol £846,593

| | | |
|---|---|---|
| | | Monkey Bob, Not Now Bernard and Worry Monsters, ynghyd â phost a phecynnu. |
| Wrecsam | Cylch Chwarae Bellevue Cyfyngedig | Bydd Cylch Chwarae Bellevue Cyfyngedig Bellevue yn Wrecsam yn darparu clwb ar ôl ysgol, pêl-droed, dosbarthiadau dawns, grŵp dawnsio Morris a chlwb brecwast i annog a chryfhau cysylltiadau amlddiwylliannol yn y gymuned. Bydd £9,000 yn ariannu staff, hurio neuadd, tiwtoriaid, darpariaeth, adnoddau a chyfarpar i'r grŵp. |
| Ynys Môn | Cyngor Tref Amlwch Town Council | £100,000. Bydd y prosiect yn darparu cyfarpar chwarae ar ddau safle yn Amlwch, Môn. Bydd gan Barc y Dref, Lôn Goch gyfarpar sy'n addas i 8-18 oed a bydd gan Barc y Porth gyfarpar i blant hyd at 8 oed. |
| Ynys Môn | Ysgol Gynradd Llandegfan | Bydd Ysgol Gynradd Llandegfan ym Môn yn darparu gweithgareddau awyr agored y tu allan i oriau ysgol ar gyfer plant ifainc yn y gymuned sy'n siarad Cymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn taclo unigedd ac yn darparu awyrgylch hamddenol i ymarfer y Gymraeg. Bydd £10,000 yn ariannu blwch tywod, rhaff a symudydd pwli, tŷ chwarae, blociau, wal dŵr a gorsaf argae. |